*Ariannir Gronfa Cymunedau'r Arfordir gan Lywodraeth y DU gydag incwm o asedau arfordirol Ystad y Goron. Cyflwynir gan y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru*

*The Coastal Communities Fund is funded by the UK Government with income from the Crown Estate's marine assets. It is delivered by the Big Lottery Fund in Wales on behalf of the Welsh Government.*

**Mae hon yn neges ddwyieithog, gyda'r Saesneg isod**

**This is a bilingual message, please scroll down for English Text**

# Cymru – Dyfarniadau Rownd 5

# Wales – Round 5 Awards

| Enw Ymgeisydd | Disgrifiad Prosiect | Dyfarniad |
|---|---|---|
| Catch of the Day | Bydd Catch of the Day yn sefydlu gwasanaeth gwerthu pysgod ar gyfer pobl leol ac i gyflenwi eu caffi presennol sydd wedi'i leoli ar Afon Teifi yn Aberteifi. Bydd yr ymgeisydd yn prynu pysgod gan bysgotwyr lleol a'u darparwr presennol yn Aberdaugleddau, Sir Benfro. Trwy wneud hyn gallant ddarparu pysgod tymhorol i'r gymuned leol a chael bwydlen fwy tymhorol ar gyfer y caffi presennol. Defnyddir y grant cyfalaf i osod y siop a chael popeth yn ei le i werthu pysgod. Bydd y | £52,100 |

| | | |
|---|---|---|
| | prosiect hefyd yn ariannu un gwerthwr pysgod amser llawn, un hyfforddai a fydd yn gwneud prentisiaeth gwerthu pysgod ac yn cefnogi busnes presennol y caffi, Fisherman's Rest. Oherwydd y cynnydd mewn gwerthiannau sydd wedi'i ddarogan ar gyfer caffi'r Fisherman's Rest, mae'n debygol y bydd swyddi tymhorol rhan-amser pellach yn cael eu creu hefyd, yn ogystal â chefnogi busnesau pysgotwyr lleol yn anuniongyrchol.<br><br>Bydd y grant o £52,100 yn cynnwys £34,000 o wariant cyfalaf tuag at y gosodiadau a ffitiadau y mae eu hangen i sefydlu'r siop gwerthu pysgod. Wedyn, bydd £18,000 o refeniw yn cael ei ddefnyddio ar draws y prosiect dwy flynedd i dalu cyflogau a chostau rhedeg cyffredinol. Amlygwyd cyfanswm cost y prosiect fel £92,344 gyda'r swm sy'n weddill yn cael ei gynhyrchu trwy incwm gweithredu. | |
| Clarenden Food Company Limited | Bydd y prosiect yn datblygu gwefan a siop ar-lein newydd ar gyfer Welsh Lady Preserves ac yn cefnogi ehangiad y cwmni trwy fuddsoddi yn y cyfarpar a chyfleusterau llinell gynhyrchu i fodloni galw cynyddol. Bydd y prosiect yn creu 3 swydd CaALl uniongyrchol ac yn diogelu 19.5 o swyddi CaALl<br><br>Dros ddwy flynedd bydd y grant o £149,377 yn cyfrannu at gostau cyflogau, datblygu gwefan a siop ar-lein y cwmni, | £149,377 |

| | | |
|---|---|---|
| | peiriannau llenwi jariau a chyfarpar paratoi bwyd. | |
| Creating Enterprise | Bydd y prosiect yn sefydlu ffatri yng Nghaergybi, Môn, i adeiladu fframiau pren arloesol (modiwlaidd eu dyluniad) ar gyfer datblygiadau tai newydd gan ddefnyddio llafur anfedrus. Bydd y prosiect yn creu tai fforddiadwy y mae angen mawr amdanynt ar draws Môn a Gogledd Cymru a bydd hefyd yn creu cyflogaeth a swyddi newydd. Mae'r ymgeisydd yn rhagweld adeiladu 30 o fframiau modiwlaidd o fewn y flwyddyn gyntaf, a fyddai'n creu pum swydd newydd a 50 o leoliadau gwaith/cyfleoedd hyfforddi Byddai pedwar o'r swyddi a grëwyd yn gontractau 12 mis trwy eu Hacademi Gyflogaeth nodedig, a gynigir i bobl mewn cyflogaeth medr isel neu sy'n ddi-waith. Bydd mentoriaid yn cefnogi nhw i ddod o hyd i waith parhaol ar ddiwedd y contract. Byddai'r model hwn yn cael ei efelychu'n flynyddol.<br><br>Bydd y grant o £174,580 dros flwyddyn yn ariannu costau refeniw o £105,580 gan gynnwys llety a chyfleustodau, ffioedd proffesiynol a chyfreithiol a chostau cyffredinol. Bydd y costau cyfalaf o £69,000 yn ariannu peirianwaith a chyfarpar. Cyfanswm cost y prosiect yw £1,247,717. Ariennir y gweddill o werthu fframiau pren. | £174,580 |
| Cwmni Urdd Gobaith Cymru | Bydd y prosiect yn trawsnewid isadeiledd Gwersyll yr Urdd, Llangrannog i greu llety a | £300,000 |

| | | |
|---|---|---|
| | chanolfan weithgareddau modern a hyblyg. Bydd y prosiect yn creu 10 swydd newydd ac yn cefnogi 20 o fusnesau lleol.<br><br>Bydd y grant o £300,000 dros ddwy flynedd yn cyfrannu at gostau adeiladu cyfalaf y cyfleusterau newydd, sef £3.5 miliwn. | |
| Cyngor Cymuned Pentywyn | Nod prosiect dwy flynedd Cyngor Cymuned Pentywyn yw datblygu'r tir a fu'n safle Neuadd Bentref Thomas Parry gynt fel safle carafanau modur dynodedig. Ar hyn o bryd mae perchnogion carafanau modur yn defnyddio'r meysydd parcio neu fannau gwyrdd sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned a'r Awdurdod Lleol nad oes ganddynt unrhyw gyfleusterau ar y safle. Bydd y datblygiad yn darparu parcio dros nos ar gyfer hyd at ddeg o garafanau modur, pob un gyda phwynt trydan, gorsaf garthffos a chyflenwad dŵr ffres. Bydd refeniw a gynhyrchir o'r cyfleuster yn helpu creu un swydd ran-amser yn ogystal ag ariannu'r costau cynnal a chadw parhaus sy'n gysylltiedig â chynaladwyedd y safle. I ddechrau bydd un swydd 0.4 CaALl yn cael ei chreu i reoli'r safle gyda dwy swydd ran-amser wedi'u diogelu.<br><br>Bydd y grant o £140,052 dros ddwy flynedd yn talu'r costau adeiladu sy'n gysylltiedig â'r safle gan gynnwys goleuadau, cysylltiadau trydan â mesurydd, pwyntiau dŵr a gwaredu dŵr budr. Bydd yn ariannu mesurydd talu ac | £140,452 |

| | | |
|---|---|---|
| | arddangos ynghyd â ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol, yswiriant a swm wrth gefn o 10%. | |
| Cyngor Sir Ceredigion | Nod y prosiect dwy flynedd yw adfywio gweithgareddau teithiau bad pleser ar lan môr Aberystwyth. Bydd y prosiect yn galluogi dod â hen lanfa bren yn ôl i gyflwr defnyddiol, sy'n addas ar gyfer gweithredwyr teithiau gweld y golygfeydd mewn badau. Bydd gwasanaeth twristiaeth y Cyngor yn hysbysebu argaeledd teithiau bad i ymwelwyr ag Aberystwyth er mwyn gwella cyfleoedd twf busnes ar gyfer y gweithredwyr teithiau bad a'r profiad i ymwelwyr yn yr ardal leol. Bydd y prosiect yn galluogi gweithredwyr teithiau bad i greu 3.5 o swyddi CaALl uniongyrchol a 1.6 o swyddi CaALl anuniongyrchol. Bydd elfen gyfalaf y prosiect yn gysylltiedig â dymchwel rhan o lanfa bresennol a'i hailadeiladu.<br><br>Mae'r grant o £72,088, dros ddwy flynedd, yn cynnwys £70,088 o wariant cyfalaf a £2,000 o wariant refeniw. Bydd arian cyfalaf yn mynd tuag at adnewyddu glanfa bren; Gan gynnwys gwaith allanol/amgylcheddol a gwaith cynsail, prynu pren a chostau wrth gefn. Bydd costau refeniw yn ariannu marchnata; gan gynnwys ymgyrch cyfryngau cymdeithasol a digwyddiad lansio. Mae'r grant yn ffurfio rhan o gyfanswm cost y prosiect o £76,088 gyda'r £4,000 sy'n weddill o'r grant yn cynnwys cyfraniad y mudiad o | £72,088 |

| | | |
|---|---|---|
| | ffioedd goruchwylio dylunio/contract gan adran beirianneg y Cyngor, a chyfraniad arian parod. Bydd yr ymgeisydd hefyd yn cyfrannu costau rheoli prosiect a chyffredinol 'mewn da' nad ydynt wedi eu costio'n ffurfiol. | |
| Gower Brewery Co Limited | Bydd Gower Brewery, yn Crofty, Abertawe, yn cynyddu capasiti ei fragdy cwrw crefft presennol trwy brynu cyfarpar newydd. Wrth gael ei gyfuno â marchnata a gweithgareddau gwerthiannau ychwanegol, bydd y cynnydd mewn cynhyrchu'n arwain at gynnydd mewn gwerthiannau a darbodion maint, gan wella maint yr elw. I gefnogi'r cynnydd mewn gweithgareddau bydd y prosiect yn ymwreiddio strwythurau gweithredu newydd i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer twf yn y dyfodol, a bydd yn creu ac yn cynnal cyfleoedd cyflogaeth newydd, gan gynnwys creu 7 swydd CaALl uniongyrchol, 7 swydd CaALl anuniongyrchol a 9 swydd CaALl wedi'u diogelu.<br><br>Bydd y grant o £173,000 dros ddwy flynedd yn ariannu gwariant cyfalaf a refeniw tuag at gyfanswm cost y prosiect o £785,535. Bydd y cyfraniad cyfalaf o £170,000 tuag at gost cyfarpar ychwanegol y mae ei angen i ehangu capasiti bragu a dosbarthu: pum dysgl fragu, golchydd a 1000 o farilanau a chasgenni a fan ar gyfer cludo. Daw'r costau eraill o £612,525 o incwm a gynhyrchir trwy werthu. | £173,000 |

| | | |
|---|---|---|
| Gwynedd Mobile Milling Limited | Bydd y prosiect dwy flynedd yn cyfarpar gweithdy coedwigaeth newydd yn Nhalsarnau ar gyrion Harlech, Gwynedd. Bydd y gweithdy'n ymgorffori cyfleusterau sychu, prosesu a chynhyrchu ac ystafell arddangos. Os bydd y cais yn llwyddiannus, ragwelir y bydd y datblygiad wedi'i gwblhau a'r holl swyddi wedi'u creu erbyn mis Chwefror 2020. Bydd y prosiect yn creu saith swydd amser llawn gan gynnwys dau weithredydd rhan-amser hunangyflogedig presennol a fydd yn mynd yn gyflogeion amser llawn a phum swydd newydd. O fis Awst 2021 byddant yn cyflogi prentis hefyd. Bydd y gweithdy hefyd yn darparu cyfle i tua 5 busnes crefft arddangos a gwerthu eu nwyddau, gan gynorthwyo nhw i ddatblygu a chynnal eu busnesau unigol.<br><br>Bydd y grant o £281,100 yn ariannu cyfarpar cyfalaf gwerth £278,100 a £3,000 o arweiniad cymorth gwladwriaethol. Mae'r cyfarpar cyfalaf yn cynnwys odyn, teledrinydd ac ategolion, tractor ac ôl-gerbyd, prosesyddion boncyffion a chynnud, cyfarpar asiedydd, rheseli, paneli solar a thanc tanwydd. | £281,100 |
| Leask Marine | Bydd y prosiect yn galluogi Leask Marine Ltd i sefydlu pencadlys yn Noc Penfro i gefnogi'r marchnadoedd morol adnewyddadwy ac acwafeithrin cynyddol gyda syniadau arloesi wedi'u teilwra a gwasanaethau | £299,872 |

| | | |
|---|---|---|
| | gosod a chynnal a chadw. Bydd y prosiect yn creu 1 swydd CaALl uniongyrchol a 2.5 swydd CaALl anuniongyrchol ac yn cefnogi 6 busnes.<br><br>Dros ddwy flynedd bydd y grant o £299,872 yn cyfrannu at gostau cyflog, cerbyd gweithredu o bell Falcon a chyfarpar weldio plastig. | |
| Menter Gymdeithas Glanyfferi | Bydd prosiect dwy flynedd Menter Gymdeithas Glanyfferi'n trawsnewid hen Ganolfan Gymunedol Calon Y Fferi i hyb cynaliadwy o weithgarwch, gyda busnesau, mentrau cymdeithasol a gwasanaethau cymunedol unigol. Defnyddir y grant ar gyfer cam tri. Bloc llety o safon uchel sy'n cynnwys tair ystafell wely ag ystafell ymolchi ynghlwm a dwy fflat stiwdio hunangynhwysol cwbl hygyrch gyda man awyr agored preifat ar gyfer cŵn gwasanaeth. Bydd pob fflat yn cael ei gosod yn unol â manyleb nam/anabledd corfforol a synhwyraidd o safon uchel gyda mynediad i beiriant codi cludadwy. Cynigir gwasanaethau gofalu am ddim i westeion sydd ag anableddau fel cwmnïaeth, golchi dillad a siopa. Bydd 2.5 o swyddi CaALl uniongyrchol yn cael eu creu ynghyd â 4 swydd CaALl anuniongyrchol a bydd 19 o swyddi pellach yn cael eu diogelu.<br><br>Mae'r grant o £300,000 dros ddwy flynedd wedi'i rannu rhwng cyfalaf a refeniw. Bydd y costau cyfalaf o £178,000 yn talu am waith | £300,000 |

| | | |
|---|---|---|
| | ar yr amgylchedd allanol a sylfeini, gosodiadau a ffitiadau a ffioedd proffesiynol/statudol. Bydd refeniw o £122,000 yn ariannu cyflogau rheolwr y ganolfan, person cadw tŷ a thasgmon ynghyd â thrwsiadau, marchnata a chyfieithu. | |
| Milford Haven Seafoods | Bydd prosiect dwy flynedd Milford Haven Seafood Limited yn sefydlu cyfleuster i brosesu amrywiaeth o fwyd môr fel crancod, cimychiaid a gwichiaid moch. Bydd y busnes yn cefnogi pysgotwyr lleol trwy brynu eu dalfa i'w phrosesu, yn bennaf ar gyfer marchnadoedd allforio yn y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r Dwyrain Pell. Bydd 20 o swyddi amser llawn uniongyrchol yn cael eu creu o'r cychwyn cyntaf, gan gynyddu i 27 erbyn diwedd yr ail flwyddyn. Bydd 46.2 o rolau CaALl yn cael eu diogelu trwy'r prosiect hefyd.<br><br>Mae'r grant o £300,000 dros ddwy flynedd wedi'i rannu rhwng cyfalaf a refeniw. Bydd y costau cyfalaf o £72,000 yn talu am brynu'r ffyrnau coginio, peirianwaith pecynnu a pheiriannau graddio. Bydd y refeniw o £228,000 yn cyfrannu at brynu pysgod cragen, marchnata, cyflogau 20 o staff newydd a chyfleustodau. Cyfanswm cost y prosiect yw £850,000 gyda'r arian cyfatebol sy'n weddill o £550,000 wedi'i sicrhau gan Fanc HSBC, Buddsoddwyr Ecwiti Preifat a Llywodraeth Cymru. | £300,000 |

| | | |
|---|---|---|
| Mon Shellfish Limited | Bydd y prosiect un flwyddyn yn ehangu gwasanaeth archebu bwyd môr ar-lein a gwerthiannau uniongyrchol i leoliad newydd ym Mhorth Penrhyn, Bangor. Gan ddefnyddio hen Swyddfa'r Porth sydd bellach yn wag, bydd modd i'r cwmni brosesu, pecynnu a chludo bwyd môr yn lleol ac ar-lein, ac yn gwerthu bwyd môr yn uniongyrchol o gownter pysgod. Swyddi: Crëwyd 1.63 o swyddi uniongyrchol a diogelwch 0.53 swydd.<br><br>Mae'r prosiect yn gais cyfalaf 100% am £99,138 i ddarparu costau adnewyddu, cyfarpar a chysylltiadau cyfleustod. | £99,138 |
| Mostyn Sand and Aggregates | Bydd y prosiect yn sefydlu Mostyn Sand & Aggregates Ltd fel is-gwmni Port of Mostyn Ltd i gynyddu sgrinio a llwytho tywod ac agregau a dreillir o harbwr Porth Mostyn yn Sir y Fflint i'w gwerthu i'r diwydiant adeiladu. Bydd y busnes yn cynyddu trwybwn o'r lefel gyfredol o 26,000 tunnell i dros 100,000 tunnell o dywod ac agregau bob blwyddyn gan greu 10 swydd uniongyrchol CaALl a 6 swydd anuniongyrchol CaALl.<br><br>Defnyddir y grant o £300,000 dros flwyddyn ar gyfer pwrcasiad cyfalaf cyfarpar trin, sgrinio a llwytho tywod arbenigol. | £300,000 |
| Robust Boats | Bydd yr ymgeisydd yn Nhyddewi, Sir Benfro, yn prynu tir i godi gweithdy mawr i adeiladu badau, gan alluogi nhw i gynyddu capasiti adeiladu badau a | £300,000 |

| | | |
|---|---|---|
| | chodi nifer y bobl a gyflogir o dri i chwe rôl adeiladu badau. Mae'r cwmni hefyd yn berchen ar ail fusnes (gan werthu cyfarpar cysylltiedig â badau), a gaiff ei adleoli i'r adeilad newydd i alluogi twf fel y bydd un aelod staff ychwanegol yn cael ei gyflogi; felly pedair rôl CaALl uniongyrchol newydd. Bydd codi'r adeilad newydd hefyd yn ymgorffori tair uned weithdy ar rent, a gaiff eu defnyddio i gynhyrchu incwm pellach, sicrhau cynaladwyedd ariannol hir dymor yr ymgeisydd, a helpu creu a chynnal cyflogaeth anuniongyrchol bellach yn y gymuned. Amcangyfrifwyd creu tair rôl anuniongyrchol o ganlyniad i lesio'r unedau gweithdy.<br><br>Defnyddir y grant o £300,000 dros flwyddyn i ariannu prynu tor a thuag at ffioedd proffesiynol a chostau adeiladu (gan gynnwys gwaith allanol cysylltiedig ag adleoli moch daear), tuag at gyfanswm cost y prosiect o £600,750. Daw'r costau sy'n weddill o gyllid preifat. | |
| Saundersfoot Harbour Commissioners | Bydd y prosiect yn datblygu ardal harbwr Saundersfoot i ddarparu Canolfan Rhaeadrau Canŵio at ddefnydd hamdden ynghyd ag ardal hyfforddi ar gyfer y gwasanaethau brys a man digwyddiadau, sinema ac arddangos a fydd yn edrych fel sgwner â mast uchel. Bydd Coastal Schooner Experience yn cynnwys arddangosfeydd treftadaeth forwrol, llwyfan ddigwyddiadau ac ardal sinema awyr agored, | £300,000 |

| | | |
|---|---|---|
| | canolfan grancod ac ardal dringo rhaffau uchel. Bydd y prosiect yn creu dau gyfleuster twristiaeth a 12.5 o swyddi uniongyrchol ac yn denu 9,000 yn fwy o ymwelwyr bob blwyddyn.<br><br>Bydd y grant o £300,000 dros ddwy flynedd yn cyfrannu at gostau adeiladu'r Ganolfan Rhaeadrau Canŵio a Coastal Schooner Experience, arddangosfa benodedig, lle i ddigwyddiadau a sinema awyr agored. | |
| The Anglesey Sea Salt Company | Mae'r prosiect dwy flynedd yn anelu at amrywiaethu'r busnes gan greu ffrydiau refeniw ychwanegol a fydd yn cynnwys pedair elfen. 1. ‘Seawater Wellbeing Thalassotherapy’ – Cynhyrchu chwistrell dŵr môr drwynol sy'n hybu system anadlu iach a datblygu Tŷ Baddon i'r 21ain ganrif a fydd yn darparu ymdrochi mewn gwymon/heli/dŵr môr. 2. Cynyddu teithiau tywysedig 'Y tu Ôl i'r Llen' y cwmni o 12 i 50 trwy ailstrwythuro cyfleusterau presennol. 3. ‘Building on our Smoking experience’ – ehangu eu hamrediadau cynnyrch a mygu dros fusnesau eraill e.e. cynhyrchwyr menyn a chaws lleol. 4. Profiad Ymwelwyr Newydd - trwy brynu ôl-gerbyd arlwyo hunangynhwysol a chreu ardal ddeciau gyda dodrefn wrth y môr yn gweini bwyd môr lleol a diodydd. Bydd y prosiect yn creu pedair swydd CaALl newydd ac yn diogelu pum swydd.<br><br>Cyfanswm cost y prosiect yw £669,753 a gofynnwyd | £296,608 |

| | | |
|---|---|---|
| | am £298,608, sy'n cynnwys £206,108 refeniw a £92,500 cyfalaf. Bydd y grant yn talu am 45% o gostau staffio'r Rheolwr Lles a Mygwr, 90% o gyfanswm costau Y Tu Ôl i'r Llen a'r elfen Profiad Ymwelwyr Newydd. Daw balans yr ariannu trwy fenthyciad o £75,000 gan HSBC (wedi'i sicrhau), £113,581 o arian wrth gefn y cwmni ei hun, a £182,564 sydd wedi'i gynnwys yn eu cyllideb a chynllun busnes presennol. | |
| William Partington Marine Limited | Bydd y prosiect dwy flynedd yn ehangu ac yn uwchraddio cyfleusterau mewn iard gychod sefydledig ym Mhwllheli, Gwynedd. Mae'r cwmni wrthi'n adeiladu sied waith newydd i ymdrin â badau mwy, ac mae wedi buddsoddi mewn peiriant codi badau 14 tunnell. Bydd y grant yn uwchraddio eu cyfleusterau a chyfarpar, gan ddarparu labordy paentio chwistrell cyfoes, cysylltiad â'r prif gyflenwad nwy a system wresogi, Roto Telehandler newydd a system reselu stocio syth ar gyfer 22 o Sgïau Dŵr. Bydd y prosiect yn creu dwy swydd amser llawn ac yn diogelu dwy swydd amser llawn a thair swydd ran-amser a bydd yn darparu mwy o oriau ar gyfer tri o saith is-gontractwr rhan-amser medrus.<br><br>Bydd y grant o £296,606 dros ddwy flynedd yn ariannu costau cyfalaf o £295,855 a chostau cyngor cymorth gwladwriaethol o £750. Bydd y cyfalaf yn talu costau peiriant trin a thrafod cylchol telesgopig, | £296,606 |

| | | |
|---|---|---|
| | uned a gwresogydd trin aer, rhesel stacio sgïau dŵr sych, cysylltiad â'r prif gyflenwad nwy, chwistrellwyr a chwythellyddion. | |

| Enw Ymgeisydd | Disgrifiad Prosiect | Dyfarniad |
|---|---|---|
| Catch of the Day | Catch of the Day will set up a fishmonger service for local people and to supply their existing café situated in Cardigan on the River Teifi. The applicant will purchase fish from local fishermen and their current supplier, in Milford Haven, Pembrokeshire. This will allow them to supply seasonal fish to the local community and have a more seasonal menu for the existing café. The capital funding will be used to fit out the shop and get everything in place for fish sales. The project will also fund a full time fishmonger, one trainee who will undertake a fishmonger apprenticeship and support the existing café business, Fisherman's Rest. Due to the increase in sales that are predicted for the Fisherman's Rest café it is likely that further part time seasonal jobs will also be created, as well as indirectly supporting local fishers businesses.<br><br>The grant of £52,100 will cover £34,000 of capital expenditure towards the fixtures and fittings needed to set up the fishmonger shop. £18,000 of revenue will then be used across the two year project to cover salaries and general running costs. Total project cost | £52,100 |

| | | |
|---|---|---|
| | has been highlighted as £92,344 with the outstanding amount being generated through operating income. | |
| Ceredigion County Council | The two year project aims to rejuvenate pleasure boat trip activity on Aberystwyth seafront. The project will enable an existing wooden jetty to be brought back into a serviceable condition, suitable for use by sightseeing boat trip operators. The Council's tourism service will advertise the availability of boat trips to Aberystwyth's visitors to enhance business growth opportunities for the boat trip operators and the visitor experience in the local area. The project will allow boat trip operators to create 3.5 FTE direct jobs and 1.6 FTE indirect jobs. The capital element of the project will entail the demolition of part of an existing jetty and its subsequent reconstruction.<br><br>The grant of £72,088, over two years, comprises of £70,088 capital expenditure and £2,000 revenue expenditure. Capital funding will go towards renovation of a wooden jetty; including external/environmental works and groundwork, purchase of timber, and contingency costs. Revenue costs will fund marketing; consisting of a social media campaign and a launch event. The grant forms part of a total project cost of £76,088 with the remaining £4,000 funding consisting of the organisation's | £72,088 |

| | | |
|---|---|---|
| | contribution of design/contract supervision fees by the engineering division of the Council, and a cash contribution. The applicant will also be contributing 'in-kind' project management and overheads, which have not been formally costed. | |
| Clarenden Food Company Limited | The project will develop a new website and online shop for Welsh Lady Preserves and support the expansion of the company by investment in the production line equipment and facilities to meet increased demand. The project will create 3 FTE direct jobs and safeguard 19.5 FTE jobs<br><br>The grant of £149,377 over two years will contribute to the cost of salaries, development of a company website and online shop, jar filling machines and food preparation equipment. | £149,377 |
| Creating Enterprise | The project will establish a factory in Holyhead, Anglesey to build innovative timber frames (modular in design) for new build housing developments, using unskilled labour. The project will create much needed affordable homes across Anglesey and North Wales and will also generate employment and create new jobs. The applicant envisages building 30 modular frames within the first year which would create five new jobs and 50 work placement/training opportunities. Four of the jobs created would be 12 month contracts through | £174,580 |

| | | |
|---|---|---|
| | their award winning Employment Academy, offered to people in low skilled employment or out of work. Mentors will support them find permanent work at the end of the contract. This model would be replicated annually.<br><br>The grant of £174,580 over one year will fund £105,580 revenue costs to include accommodation and utilities, professional and legal fees, and general overheads. Capital costs of £69,000 will fund machinery and equipment. The total project cost is £1,247,717. The balance will be funded from the sales of timber frames. | |
| Cwmni Urdd Gobaith Cymru | The project will transform the infrastructure at Gwersyll yr Urdd, Llangrannog (Llangrannog Urdd Centre) to create a modernised and flexible accommodation and activity centre. The project will create 10 new jobs and support 20 local businesses.<br><br>The grant of £300,000 over two years will contribute towards the £3.5million capital construction costs of the new facilities. | £300,000 |
| Ferryside Social Enterprise Group | Ferryside Social Enterprise Group's two year project will turn the former Calon Y Fferi Community Centre building into a sustainable hub of activity, with individual businesses, social enterprises and community services. The funding will be utilised for phase three. A high quality accommodation block | £300,000 |

| | | |
|---|---|---|
| | consisting of three en-suite bedrooms and two fully accessible self-contained studio flats with private outdoor space for service dogs. Each flat will be fitted out to a high physical and sensory impairment/disability specification with access to a mobile hoist. Guests with disabilities will be offered free caring services such as companionship, laundry and shopping. 2.5 FTE direct jobs will be created along with 4 FTE indirect jobs with an additional 19 jobs safeguarded.<br><br>The grant of £300,000 over two years is split between capital and revenue. The £178,000 capital costs will cover the external environment and groundworks, fixture and fittings and professional/statutory fees. Revenue of £122,000 will fund the salaries of the centre manager, housekeeper and maintenance person as well as repairs, marketing and translation. | |
| Gower Brewery Co Limited | Gower Brewery, based in crofty, Swansea, will grow the capacity of its existing craft beer brewery through the purchase of new equipment. When combined with additional marketing and sales activity, the increase in production will lead to an increase in sales and take advantage of economies of scale, thus improving profit margins. To support the increase in activity the project will put in place new operating structures to provide a | £173,000 |

| | | |
|---|---|---|
| | sound platform for future growth, and create and sustain new employment opportunities, including the creation of 7 FTE direct jobs, 7 FTE indirect jobs created, and 9 FTE safeguarded jobs.<br><br>The grant of £173,000, over two years, will fund capital and revenue expenditure towards a total project cost of £785,535. The capital contribution of £170,000 will contribute towards the cost of additional equipment required to expand brewing and distribution capacity: five brewing vessels, a washer, and 1000 kegs and casks and a van for deliveries. The remaining costs of £612,525 will come from income generated through sales. | |
| Gwynedd Mobile Milling Limited | The two year project will equip a new forestry workshop in Talsarnau on the outskirts of Harlech, Gwynedd. The workshop will incorporate drying, processing and manufacturing facilities and a show room. Should the application be successful, it is predicted that the development will be completed, and all the jobs created by February 2020. The project will create seven full time jobs consisting of two current part time self employed operators becoming full time employees and five new posts. From August 2021 they will also employ an apprentice. The workshop will also provide around 5 craft businesses with an opportunity to | £281,100 |

| | | |
|---|---|---|
| | showcase and sell their products which will assist them in developing and sustaining their individual businesses.<br><br>The grant of £281,100 will fund capital equipment worth £278,100 and £3,000 state aid guidance. The capital equipment consists of a kiln, telehandler and attachments, Tractor and trailer, Log and kinder processors, Joinery equipment, Racking, Solar Panels and a Fuel tank. | |
| Leask Marine | The project will enable Leask Marine Ltd to establish a base in Pembroke Dock to support the growing marine renewables and aquaculture markets with bespoke innovation ideas and installation and maintenance services. The project will create 1 FTE direct and 2.5 FTE indirect jobs and support 6 businesses.<br><br>The grant of £299,872 over two years will contribute to salary costs, a Falcon remotely operated vehicle (ROV) and plastic welding equipment. | £299,872 |
| Milford Haven Seafoods | Milford Haven Seafood Limited's two year project will involve setting up a facility to process various sea food such as crab, lobster and whelks. The business will support local fisherman by purchasing their catch to process mainly for the export markets in the UK, Europe and Far East. 20 direct full time jobs will be created from the offset, increasing | £300,000 |

| | | |
|---|---|---|
| | to 27 by the end of the second year. 46.2 FTE roles will also be safeguarded through the project.<br><br>The grant of £300,000 over two years is split between capital and revenue. The £72,000 capital costs will cover the purchasing of the cooking ovens, packing machinery and grading machines. The £228,000 revenue will contribute towards the purchasing of shellfish, marketing, salaries of 20 new staff and utilities. The total project cost is £850,000 with the remaining match funding of £550,000 secured from HSBC Bank, Private Equity Investors and Welsh Government. | |
| Mon Shellfish Limited | The one-year project will expand an on-line seafood ordering service and direct sales to a new location at Port Penrhyn, Bangor. Utilising the empty Old Port Office, the company will be able to process, package and deliver seafood locally and on-line, and sell seafood directly from a fish counter. Jobs: 1.63 direct jobs created and 0.53 jobs safeguarded.<br><br>The project is a 100% capital request for £99,138 to provide refurbishment costs, equipment and utility connections. | £99,138 |
| Mostyn Sand and Aggregates | The project will establish Mostyn Sand & Aggregates Ltd as a subsidiary of the Port of Mostyn Ltd to increase the screening and loading of sand and aggregates dredged from the harbour at the Port of Mostyn in Flintshire for sale | £300,000 |

| | | |
|---|---|---|
| | to the construction industry. The business will increase throughput from the current level of 26,000 tonnes to over 100,000 tonnes of sand and aggregate annually creating 10 FTE direct jobs and 6 FTE indirect jobs<br><br>The grant of £300,000 over one year will be used for the capital purchase of specialised sand handling, screening and loading equipment. | |
| Pendine Community Council | Pendine Community Council's two year project aims to develop the land where the former Parry Thomas Village Hall once stood into a designated motorhome site. Currently motorhome owners utilise the Community Council and Local Authority owned car parks or greenspace with no onsite facilities. The development will provide overnight parking for up to ten motorhomes, each with an electric charge point, foul waste station and fresh water supply. Revenue generated from the facility will help create one part time job as well as funding the ongoing maintenance costs associated with the sites sustainability. Initially one 0.4 FTE post will be created to manage the site with two part time jobs safeguarded.<br><br>The grant of £140,052, over two years, will cover the construction costs associated with the site including lighting, metered hook up, waste water and foul disposal points. It will also fund a pay and display | £140,052 |

| | | |
|---|---|---|
| | meter as well as legal and professional fees, insurance and contingency at 10%. | |
| Robust Boats | The applicant, based in St Davids, Pembrokeshire, will purchase land to construct a larger boat-building workshop, enabling them to increase boat-building capacity, and increase the number of people employed from three to six boat-building roles. The company also own a second business (selling boating related equipment), which will also be relocated to the new premises enabling growth such that one additional member of staff will be employed; thus four new direct FTE roles. The construction of the new building will also incorporate three rental workshop units, which will be used to generate further income, ensure long-term financial sustainability for the applicant, and help create and sustain further indirect employment in the community. The creation of three indirect roles has been estimated as a result of the lease of the workshop units.<br><br>The grant of £300,000, over one year, will be used to fund the purchase of land, and towards professional fees and construction costs (including external associated works and badger relocation), towards a total project cost of £600,750. The remaining costs will be come from private finance. | £300,000 |
| Saundersfoot Harbour Commissioners | The project will develop the harbour area at Saundersfoot to provide a | £300,000 |

| | | |
|---|---|---|
| | Canoe Rapids Centre for recreational use as well as a training area for emergency services, together with an events, cinema and exhibition space that will resemble a tall masted schooner. The Coastal Schooner Experience will house maritime heritage exhibitions, an events stage and open air cinema area, a crabbing centre and a high ropes climbing area. The project will create two new tourism facilities and 12.5 direct jobs and will increase visitor numbers by 9,000 per annum.<br><br>The grant of £300,000 over two years will contribute to the construction costs of the Canoe Rapids Centre and the Coastal Schooner Experience, a purpose built exhibition, events and outdoor cinema space. | |
| The Anglesey Sea Salt Company | The two year project aims to diversify the business generating additional revenue streams comprising four elements. 1. 'Seawater Wellbeing Thalassotherapy' – the production of a sea water nasal spray that promote healthy air passages and developing a 21st century Bath House which will provide seaweed/brine/seawater bathing. 2. Increasing the company's 'Behind the Scenes Tours' capacity from 12 to 50 by restructuring current facilities. 3. 'Building on our Smoking experience' – expanding their product range and smoking for other businesses e.g. local butter and cheese manufacturers. | £298,608 |

| | | |
|---|---|---|
| | 4. New Visitor Experience – by purchasing a self-contained catering trailer and creating a decking area with furniture by the sea serving local seafood and drink. The project will create four new FTE posts and safeguard five posts. workforce.<br><br>The total cost of the project is £669,753 with £298,608 being requested, which is made up of £206,108 revenue and £92,500 capital. The funding will pay for 45% of the staffing costs of the Wellbeing Manager and Smoker, 90% of the total costs of the Behind the Scenes and New Visitor Experience element. The balance of the funding will come via a £75,000 HSBC loan (secured), £113,581 of the company's own current cash reserves, and £182,564 contained within their existing budget and business plan. | |
| William Partington Marine Limited | The two year project will expand and upgrade facilities at a well established boatyard in Pwllheli, Gwynedd. The company is currently building a new workshed to handle larger boats, and has invested in a 14 ton boat hoist. The grant will upgrade their facilities and equipment, providing a state of the art spray painting laboratory, mains gas connection and heating system, a new Roto Telehandler, and a dry-stack racking system for 22 JetSkis. The project will create two full time jobs and safeguard two full time | £296,606 |

| | | |
|---|---|---|
| | and three part time jobs and will provide increased hours for three of seven part time skilled subcontractors.<br><br>The grant of £296,606 over two years will fund £295,855 capital and £750 state aid advice costs. The capital will to cover the costs of a roto telescopic handler, air handling unit and heater, jetski dry stack racking, mains gas connection and sprayers and blasters. | |